Nodiadau Arweiniol y Gwasanaeth Angorfeydd

Cwblhewch y pro fforma hwn a'i ddychwelyd i swyddfa'r harbwr ynghyd â'r ffurflen gais i angori. Bydd hyn yn gymorth i Awdurdod yr Harbwr reoli ei angorfeydd yn effeithiol ac yn galluogi'r sawl sy'n Darparu'r Gwasanaeth Angori i amserlennu unrhyw waith yn ôl y gofyn.

Archwiliadau Angorfeydd

1. Pe baech angen i'r contractwr angorfeydd **archwilio** eich angorfa, rhowch gylch o amgylch y blwch **'Oes'** dan yr is-deitl **'Contractwr i Archwilio',** fel arall, rhowch gylch o amgylch y blwch **'Na'.**

Cynnal a Chadw'r Angorfa

2. Pe baech angen i'r contractwr angorfeydd **wasanaethu** eich angorfa, rhowch gylch o amgylch y blwch '**Oes'** dan yr is-deitl '**Gwasanaethu Angorfa'**, fel arall, rhowch gylch o amgylch y blwch '**Na'**.

3. Pe baech angen i'r contractwr angorfeydd eich cynghori am y gwaith cynnal a chadw sydd ei angen ac i roi amcanbris o'r gost i chi cyn i'r gwaith gychwyn, rhowch gylch o amgylch y blwch '**Oes'** dan yr is-deitl '**Ar ôl derbyn caniatâd y perchennog yn unig'**, fel arall, rhowch gylch o amgylch y blwch '**Na'**.

4. Pe baech angen i'r contractwr angorfeydd **gynnal a chadw** eich angorfa, yn unol â'r hyn y gwêl y darparwr gwasanaeth yn angenrheidiol, a heb roi gwybod i chi ymlaen llaw, rhowch gylch o amgylch y blwch '**Oes'** dan yr is-deitl '**Yn ôl y Gofyn'**, fel arall, rhowch gylch o amgylch y blwch '**Na'**.

Symud yr angorfa.

5. Pe baech angen ailosod eich angorfa, rhowch gylch o amgylch y blwch **'Oes'** gyferbyn â **'A oes angen ailosod eich angorfa?',** fel arall, rhowch gylch o amgylch y blwch **'Na'.**

6. Nodwch y dyddiad y byddwch angen yr angorfa.

7. Nodwch y dyddiad posib y bydd y cwch yn cael ei lansio (os yw'n hysbys).

Codi Offer Angori

8. Pe baech angen i'r contractwr angorfeydd **godi** eich angorfa, rhowch gylch o amgylch y blwch **Oes'** gyferbyn â **'A oes angen codi'r angorfa',** fel arall, rhowch gylch o amgylch y blwch **'Na'**.

9. Nodwch y dyddiad pan fydd yr angorfa'n wag.

10. Pe baech angen i'r contractwr angorfeydd ddefnyddio grym codi offer ei gwch yn llawn, a hynny gyda pherygl o wahanu'r angorfa, rhowch gylch o amgylch y blwch **'Oes'** gyferbyn â **'Llusgo i'r pwynt fod y gêr yn methu'**, fel arall, rhowch gylch o amgylch y blwch **'Na'.** Noder, pe baech yn dewis yr opsiwn hwn, ni fydd darparwr y gwasanaeth angori yn gyfrifol am golli neu ddifrodi offer.

11. Pe baech angen i'r contractwr angorfeydd ddefnyddio grym codi sy'n briodol i faint yr angorfa, a dim mwy, rhowch gylch o amgylch y blwch **'Oes'** gyferbyn â **'Llusgo'r gêr gan sicrhau ei fod yn gweithio'n ddiogel',** fel arall, rhowch gylch o amgylch y blwch **'Na'.**

Storio'r Offer Angori

12. Pe baech angen i'r contractwr angorfeydd drefnu i'ch offer angori gael ei storio dros gyfnod y gaeaf, rhowch gylch o amgylch y blwch **'Oes'** gyferbyn â **'Contractwr i drefnu storio',** fel arall, rhowch gylch o amgylch y blwch **'Na'.**

<u>Wedi i chi gwblhau, llofnodwchy pro fforma, gan nodi'r dyddiad ac ysgrifennu'ch enw mewn llythrennau bras.</u>